**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 24 HYDREF 2017 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; a Mrs Julie May.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Deb Jones (Swyddog Cymorth Busnes) a Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa).

**Amser dechrau:** 09:30
**Amser gorffen:** 16:50

**Ymddiheuriadau:** Mr Theodore Joloza.

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Briffiodd y Cadeirydd y Comisiwn ar gynhadledd ddiweddar Un Llais Cymru, a fynychodd yr wythnos ddiwethaf. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet araith lle y croesawodd 'Arweiniad ar Arolygon Cymunedol' y Comisiwn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn ymgynghori arno, gan ddweud ei fod yn ddarn o waith pwysig a fyddai'n ddefnyddiol i gynghorau yn y dyfodol.

2.2. Briffiodd y Cadeirydd y Comisiwn ar gyfarfod diweddar IRP a fynychodd, a drafododd rôl Cynghorwyr ar draws y DU.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Medi 2017

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2017 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 11 Hydref 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Nodwyd y cynnydd diweddaraf ar y materion canlynol hefyd:

- **(Mater 1) Staffio** – Caiff cyfweliadau ar gyfer y Rheolwr Cymorth Busnes eu cwblhau ar 13 Tachwedd 2017. Nid yw'r Swyddog Arolygon a benodwyd yn ddiweddar yn gallu dechrau, felly cytunodd y Comisiwn y gellir cynnal yr arolygon sy'n weddill o fewn adnoddau'r Comisiwn.
- **Penderfynwyd** ymhellach i ddileu'r swydd ychwanegol o'r strwythur staffio.
- **(Mater 3) Safonau'r Gymraeg** – Cyhoeddwyd polisi cwynion y Comisiwn. Caiff y Polisi a Gweithdrefnau eu cyhoeddi maes o law.
- **(Mater 6) Cyfarfod Rhyng-gomisiynol 2017** – Mae'r trefniadau terfynol i'w trefnu.
- **(Mater 8) Arweiniad ar Arolygon Cymunedol** – Cyhoeddwyd yr arweiniad hwn ar 28 Medi, ac mae ymgynghoriad arno â rhanddeiliaid yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## 5. Ymateb i Bapur Gwyn y Gymraeg

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Hydref 2017 gan y Prif Weithredwr.

5.2. **Cytunodd** y Comisiwn â'r ymateb â mân newid. Caiff hwn ei gyfieithu a chaiff yr ymateb ei anfon at yr ymgynghoriad.

## 6. Polisi Caffael Cynaliadwy

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 30 Medi 2017 gan y Swyddog Cymorth Busnes.

6.2. **Nododd** y Comisiwn y polisi ac argymhellodd sawl newid i eiriad y polisi er mwyn adlewyrchu ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a moesegol y Comisiwn, yn ogystal â diweddaru cyfeiriadau penodol at reoliadau presennol yr Undeb Ewropeaidd.

6.3. **Cytunodd** y Comisiwn â'r polisi, â'r newidiadau uchod.

## 7. Polisïau Adnoddau Dynol

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Hydref 2017 gan y Swyddog Cymorth Busnes.

7.2. **Nododd** y Comisiwn ddirprwyo cyfrifoldeb dros gymeradwyo fersiynau a diweddariadau i bolisïau Adnoddau Dynol, ac argymhellodd y dylai'r Polisi Lletygarwch Corfforaethol a'r Polisi Diogelu Data fynnu cymeradwyaeth ar lefel y Comisiwn.

7.3. **Cytunodd** y Comisiwn â dirprwyo'r gwaith o gymeradwyo polisïau Adnoddau Dynol, gan gynnwys y newidiadau uchod.

## 8. Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru)

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Hydref 2017 gan y Prif Weithredwr.

8.2. **Nododd** y Comisiwn yr ymgynghoriad a **chytunodd** â'r ymateb arfaethedig.

## 9. Rheoli Risg – Cofrestr Risg

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Hydref 2017 gan y Rheolwr Cyllid. Ystyriwyd bod y Gofrestr yn adlewyrchiad cywir o'r risgiau presennol i amcanion corfforaethol y Comisiwn. **Cytunwyd** nad oedd angen unrhyw newid.

9.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 10. Adroddiad ar y Gyllideb

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 24 Hydref 2017 gan y Rheolwr Cyllid. Ystyriwyd y tanwariant amcangyfrifedig a chafwyd trafodaeth ynghylch materion staffio presennol ac yn y dyfodol, ynghyd â'r gofyniad a godwyd yn ddiweddar gan y landlord i'r Comisiwn ailaddurno Tŷ Hastings ar ddiwedd y brydles bresennol. Ystyriwyd y byddai amcangyfrif mwy cywir o'r tanwariant terfynol ar gael erbyn mis Rhagfyr.

10.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 11. Arolwg Etholiadol Powys

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 13 Hydref 2017 gan y Swyddog Arolygon.

11.2. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 1 ar gyfer Tref Ystradgynlais, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abercraf ac Ystradgynlais, Cwm-Twrch, ac Ynyscedwyn.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Cydraddoldeb etholiadol gwell yn yr ardal, gan ddefnyddio'r trefniadau etholiadol presennol.
- Yn cadw'r nifer fwyaf o wardiau un-aelod yn ogystal â darparu'r lleiaf o amhariad i'r ardal.

11.3. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 5 ar gyfer ardal Llangors, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Bronllys a Felin-Fach, Llangors gyda Bwlch, Crucywel gyda Chwmdu a Thretŵr, Yscir gyda Honddu Isaf a Llanddew, Llangatwg a Llangynidr, Maes-car a Llywel, Talgarth, Talybont-ar-Wysg, a Thawe-Uchaf.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu'r trefniadau mwyaf effeithiol a chyfleus ar gyfer llywodraeth leol yn yr ardal ehangach.
- Mae'n cadw nifer fawr o'r trefniadau presennol.
- Er ei fod yn creu ward aml-aelod yn ardal Crucywel, mae'n ofynnol gwneud hynny er mwyn gwella'r amrywiant etholiadol ac oherwydd y ddaearyddiaeth.
- Cydnabyddir ei fod yn rhannu Cymuned Cwmdu a'r Cylch, ond credir bod ward Bwlch a ward Cwmdu yn canolbwyntio ar gyfeiriadau gwahanol, gan fod y cysylltiadau cyfathrebu ar gyfer Bwlch yn mynd yn fwy tua'r gogledd, ac mae Cwmdu a Thretŵr yn ffocysu tua'r de ar hyd yr A479.

11.4. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 2 ar gyfer ardal Aberhonddu, sy'n cynnwys ward etholiadol:

Aberhonddu

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'r cynnig yn dilyn y gynrychiolaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Tref.
- Er ei fod yn ward aml-aelod, mae'n ardal drefol sy'n caniatáu ar gyfer cynrychiolaeth aml-aelod effeithiol.

11.5. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llanfair-ym-muallt, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Llanfair-ym-muallt, Llanafanfawr gyda Garth, a Llanwrtyd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'r cynnig yn cadw aelodau unigol ar draws yr ardal.
- Mae'n cydnabod y gwahaniad gwledig a threfol rhwng Llanfair-ym-muallt a'r ardal wledig fwy o'i chwmpas.
- Er ei fod yn rhannu Cymuned Treflys, mae'n darparu'r set o drefniadau mwyaf effeithiol ar gyfer yr ardal ehangach wrth wella'r amrywiant etholiadol cyffredinol, a chredir bod Garth a Beulah yn aneddiadau ar wahân.

11.6. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 4 ar gyfer ardal canolbarth Powys, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Abaty Cwm-hir, Llanbadarn Fynydd a Llanbister, Aberedw, Dyserth a Threcoed a Llanelwedd, Trefyclo gyda Bugeildy, Clas-ar-Wy, Glascwm, Llanbadarn Fawr a Maesyfed, Llangynllo gyda Norton, Llanllŷr a Nantmel, Pencraig a Chastell-paen, Llanandras a Rhaeadr.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n arwain at set o drefniadau effeithiol ar gyfer yr ardal ehangach a chydraddoldeb etholiadol gwell.
- Mae'n parchu cyfanrwydd y rhan fwyaf o'r cymunedau.
- Er ei fod yn rhannu Tref Llanandras, penderfynwyd ei fod yn ofynnol er mwyn parchu'r rhaniad gwledig a threfol yn yr ardal hon a gwella lefel gyffredinol yr amrywiant etholiadol, wrth ddarparu ar gyfer wardiau etholiadol trefol a gwledig gwahanol.
- Mae'n nodi ystod y cysylltiadau cyfathrebu mewnol ar draws yr ardaloedd arfaethedig.

11.7. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 1 ar gyfer ardal Llandrindod, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Gogledd Llandrindod a De Llandrindod.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol yn yr ardal hon.
- Er ei fod yn cynnig ward aml-aelod, mae'n ardal drefol sy'n hwyluso cynrychiolaeth aml-aelod effeithiol.

11.8. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 5 ar gyfer ardal Ceri, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Yr Ystog, Llandinam gyda Dolfor, a Cheri.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un-aelod ar draws yr ardal.
- Er ei fod yn rhannu Cymuned Ceri, mae wedi'i seilio ar gysylltiadau cyfathrebu presennol rhwng ward Dolfor a Chymuned Mochdre, sy'n rhan o ward etholiadol bresennol Llandinam.

11.9. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 2 ar gyfer ardal Llandinam – a fydd yn cael ei galw'n ardal Llanidloes erbyn hyn (yn dilyn y penderfyniad a wnaed ynghylch Ceri a'r ardal gyfagos). Mae'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Carno a Llanbrynmair, Caersws, Glantwymyn, Llanidloes gyda Llangurig, Llanidloes Allanol a Threfeglwys, a Machynlleth.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'r ganolfan boblogaeth yn Llanidloes a Llangurig yn gymharol agos at ei gilydd ac yn grynodedig, a fyddai'n sicrhau ward etholiadol aml-aelod effeithiol.
- Ceir cysylltiadau cyfathrebu da yn yr ardal arfaethedig.
- Gwelliannau sylweddol o ran amrywiant etholiadol.

11.10. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 1 ar gyfer ardal Y Drenewydd, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwch-aearn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwch-aearn, a Chanol a De y Drenewydd.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n cadw nifer fawr o'r wardiau etholiadol presennol.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol cyffredinol yn yr ardal.

11.11. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 2 ar gyfer ardal Trefaldwyn, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Dolforwyn, Ffordun a Threfaldwyn, a Threlystan a Threwern.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu ar gyfer wardiau un-aelod yn yr ardal.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol cyffredinol yn yr ardal.
- Mae'r cynnig hwn yn rhannu Cymuned Ffordun, ond mae gwneud hynny'n caniatáu creu tair ward un-aelod, yn hytrach na'r dewis

amgen (Opsiwn 1), a fyddai'n arwain at ward aml-aelod yn cynrychioli Trefaldwyn i Dreberfedd.

11.12. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 3 ar gyfer ardal Y Trallwng, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Castell y Trallwng, Y Trallwng Gungrog, a'r Trallwng Llannerch Hudol.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae derbyn y newid i'r ffin a gynigiwyd gan Gyngor Tref Y Trallwng yn creu tair ward un-aelod, sy'n darparu amrywiant etholiadol gwell.

Derbyniodd y Comisiwn y newidiadau ôl-ddilynol i Gyngor Tref Y Trallwng.

11.13. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 1 ar gyfer ardal Aberriw, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Aberriw a Chastell Caereinion, Cegidfa, a Rhiwcynon

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu set o drefniadau effeithiol gan ddarparu'r amhariad lleiaf ar y trefniadau etholiadol presennol.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol cyffredinol.
- Mae'n sicrhau cyfanrwydd y cymunedau yn yr ardal.

11.14. Cytunodd y Comisiwn ag Opsiwn 1 ar gyfer ardal Llanwddyn, sy'n cynnwys wardiau etholiadol arfaethedig:

Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn, Llandrinio, Llandysilio, Llanerfyl a Llanfair Caereinion, Llanfyllin, Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin, Llansanffraid, a Llangynyw a Meifod.

Nodwyd y rhesymau canlynol o blaid y penderfyniad:

- Mae'n darparu wardiau un-aelod ar draws yr ardal hon.
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol yn yr ardal.
- Ceir cysylltiadau cyfathrebu mewnol da yn y wardiau arfaethedig.

11.15. Caiff yr enwau arfaethedig eu cytuno trwy e-bost, cyn eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau cyn i'r Adroddiad Cynigion Drafft gael ei gyflwyno ger bron y Comisiwn fis nesaf.

## 12. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 24 Hydref 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

12.2. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

## 13. Calendr Digwyddiadau

13.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 14. Unrhyw Fater Arall

14.1. Nid oedd unrhyw faterion eraill i’w trafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 21 Tachwedd 2017**